Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Y Llwyfan
Heol y Coleg/College Road
Caerfyrddin/Carmarthen
SA31 3EQ

Cadeirydd/Chairman:
**Dr Haydn E Edwards**
Prif Weithredwr/Chief Executive:
**Dr Ioan Matthews**

**Ffôn**/Phone:
01267 610400
**Ebost**/Email:
gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk
www.colegcymraeg.ac.uk

At sylw: Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru

Annwyl Gydweithiwr

**Datblygu Llwybrau Dilyniant a Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg mewn Sefydliadau Addysg Bellach**

Ysgrifennaf atoch ar ran y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i'ch gwahodd i gyflwyno ceisiadau i Gronfa Datblygiadau Strategol y Coleg.

Mae'r gwahoddiad hwn yn benodol ar gyfer datblygu llwybrau dilyniant a/neu ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym meysydd iechyd a gofal o fewn y sefydliadau addysg bellach.

Byddwch yn ymwybodol fod y Coleg Cymraeg wedi ariannu nifer o brosiectau mewn blynyddoedd diweddar yn y sector addysg bellach ac fel rhan o'r bartneriaeth sy'n datblygu mae'n amserol i gomisiynu set o brosiectau newydd. Adnoddau penodol sydd ar gael ar gyfer y prosiectau hyn ac felly yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru bwriadwn flaenoriaethu ceisiadau ym maes Iechyd a Gofal. Mae hyn yn gyson gyda *Mwy na Geiriau*, sef strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y gwasanaethau iechyd a gofal. Gall y ceisiadau hyn ymwneud â darpariaeth lefel 3, darpariaeth lefel 4 ac uwch, neu lwybrau dilyniant penodol.

Mae'r llythyr hwn yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer cyflwyno ceisiadau am grantiau sy'n ymwneud â'r sector addysg bellach o Gronfa Datblygiadau Strategol y Coleg..

Bydd pob cais yn cael eu hystyried yn unol â'r meini prawf isod:

- nifer y myfyrwyr sy'n elwa;
- cynyddu darpariaeth addysg uwch mewn addysg bellach;
- perthnasedd i faes iechyd a gofal;
- potensial i ddenu myfyrwyr addysg bellach i astudio addysg uwch a chynyddu darpariaeth/dilyniant rhwng addysg bellach ac addysg uwch;
- perthnasedd i gynlluniau academaidd y Coleg Cymraeg;
- cyfraniad at ddatblygu adnoddau fydd o ddefnydd i'r sectorau addysg bellach ac addysg uwch fel ei gilydd.

Gwahoddir ceisiadau gan sefydliadau addysg bellach ar y ffurf a ddynodir yn yr atodiad. Ni ddylai unrhyw sefydliad unigol gyflwyno mwy nag un cais. Gall sefydliadau gyflwyno ceisiadau ar y cyd – hynny yw, gydag elfen gydweithredol amlwg ar gyfer a gan ddau neu fwy o sefydliadau.

Bydd Panel Grantiau'r Coleg yn ystyried y prosiectau arfaethedig ac yn gwneud argymhellion penodol mewn perthynas â phob cais a gyflwynir.

Dylid cyflwyno ceisiadau erbyn **hanner dydd ar 14 Gorffennaf, 2017**. Dylid anfon copi electronig o'r cais i c.williams@colegcymraeg.ac.uk

Mae croeso i chi ymgynghori gyda'r Coleg cyn cyflwyno cais a bydd un o'm cydweithwyr yn barod i ddarparu cyngor fel bo'r angen. Yn y lle cyntaf, dylid cyfeirio ymholiadau at Gofrestrydd y Coleg, Dr Dafydd Trystan, d.trystan@colegcymraeg.ac.uk.

Byddwn yn cadarnhau trefniadau unrhyw brosiectau llwyddiannus cyn diwedd Gorffennaf 2017 gan fanylu ar unrhyw amodau penodol sydd ynghlwm â'r dyfarniadau.

Yn gywir iawn,

Ioan Matthews

Dr Ioan Matthews

Prif Weithredwr